



CANOLBWYNT CYFLOGAETH
CONWY
EMPLOYMENT HUB

CYMORTH HYFFORDDIANT GRYMUSO
SUPPORT TRAINING EMPOWERMENT

RHAGFYR 2022

Newyddion y Canolbwynt



CROESO

Mae'n anodd credu mai dim ond tair wythnos sydd tan y Nadolig a bod blwyddyn brysur iawn arall ar fin dod i ben!

Mae llawer o ddatblygiadau cyffrous wedi bod yn y Canolbwynt eleni. Yr un mwyaf nodedig yw ein bod yn ddiweddar wedi cyflwyno Canolbwynt Ieuenctid. Mae plant ac oedolion ifanc ymysg y rheiny a ddiodeffodd fwyaf o ganlyniad i'r pandemig ac, ar ôl sicrhau cyllid ychwanegol, trwy Warrant i Bobl Ifanc, bydd gennym ddau fentor llawn amser i gefnogi a helpu pobl ifanc 16-24 oed i ennill sgiliau a chyflogaeth.

Rydym hefyd wedi cynhyrchu ein Hadroddiad Blynyddol cyntaf. Mae'n hawdd iawn i fusnesau a sefydliadau edrych ymlaen yn barhaus, ond mae'n braf hefyd myfyrio rhywfaint ac mae creu'r adroddiad hwn wedi bod yn ymarfer defnyddiol i arddangos ein cyflawniadau i fudd-ddeiliaid. Mae'r adborth yr ydym wedi'i dderbyn wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol, ond os na wnaethoch dderbyn copi ac os hoffech gael un, fe welwch fanylion ynglŷn â sut i wneud cais am un yn y newyddlen hon.

Rwy'n gobeithio nad yw'n rhy gynnar i ddymuno Nadolig llawen i chi, a dymunaf flwyddyn hapus a llwyddiannus iawn i chi yn 2023.

Libby Duo, Rheolwr Strategol

RHIFYN 4

Uchafbwyntiau'r Newyddlen

[Rhaglen Pobl Ifanc](#)

[Cymorth i Gyflogwyr](#)

[Cronfa Adfywio
Cymunedol](#)

[Gwneud eich
symudiad](#)

DATA CONWY

Yn ddiweddar cynhyrchodd y Bwrdd Sgiliau Rhanbarthol Drosolwg o Economi Conwy ar gyfer Chwarter 2:

- Mae gan y sir boblogaeth o 118,001, sy'n gynydd o 1.181% yn unig ers y llynedd. Dros y pum mlynedd nesaf, rhagamcanir y bydd twf ychwanegol o 1.47% yn unig.
- Cyfanswm y boblogaeth oedran gweithio (16-64) yw 65,495, ac o'r cyfanswm hwnnw nid yw 16,689 yn rhan o'r Llafurlu, ac o'r 48,806 sy'n weddill, mae 1,651 yn ddi-waith.
- Mae risg ymddeoliad yn uchel yng Nghonwy ac mae disgwyl i 55,468 o bobl ymddeol yn y dyfodol agos.
- Mae gostyngiad o 3,778 wedi bod mewn swyddi dros y 5 mlynedd diwethaf, a rhagamcanir cynnydd o 332 yn unig dros y 5 mlynedd nesaf.
- Y Cyflog Cyfartalog yn 2021 oedd £22,700, sy'n £7800 yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Y tri diwydiant sydd wedi tyfu fwyaf yw Gweithgareddau Gweinyddol a Gwasanaeth Cefnogi, Cludiant a Storfeydd, a Gweithgareddau Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol.
- Mae nifer y swyddi mewn Gwestai a Lletyau Tebyg wedi gweld gostyngiad o 28%, er mai Gweithgareddau Llety a Gwasanaethau Bwyd yw'r ail ddiwydiant mwyaf yn y sir.



Os ydych yn y Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol efallai y bydd y canlynol o ddiddordeb:

- Cyfanswm y swyddi yn y sector hwn yn 2021 oedd 6,960 a disgwylir iddo weld twf o 0.1% yn unig dros y blynyddoedd nesaf sy'n is na'r twf o 2.7% yn y cyfartaledd cenedlaethol. Rhagwelir y bydd gogledd Cymru fel rhanbarth yn colli 166 o swyddi yn y sector hon erbyn 2025.
- Roedd 22.3% o'r swyddi yn y sector hwn yn Weithwyr Gofal a Gofalwyr Cartref, a 13.4% yn Nyrsys.
- Y cyflog cyfartalog yn y sector hwn oedd £23,050 yn 2021 sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o £26,497.

* Ffynhonnell y Data a Chyfrifiadau

Mae Adroddiad y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cynnwys data o fodel Mewnbyn-Allbwn Emsi. Mae'n seiliedig ar ddata o dablau cyflenwi a defnyddio Mewnbyn-Allbwn y Swyddfa Ystadegau Gwladol, data llif y Cyfrifiad, Cyfrifon Busnes y DU o BRES, a nifer o setiau data mewnol Emsi.

ADRODDIAD BLYNYDDOL CANOLBWYNT CYFLOGAETH CONWY

Roedd 2021-2022 yn llwyddiant ysgubol i Ganolbwynt Cyflogaeth Conwy, ac i ddathlu ein cyflawniadau fe gynhyrchom ein Hadroddiad Blynyddol cyntaf a gylchredwyd y mis diwethaf. Os na dderbynioch yr Adroddiad ac os hoffech gopi anfonwch e-bost at ceh@conwy.gov.uk.

Fel arall, gellir darllen fersiwn Hygrch o'r Adroddiad **yma**.



CANOLBWYNT IEUENCTID

Ar ôl sicrhau cyllid ychwanegol, fel rhan o Warant Pobl Ifanc Llywodraeth Cymru, i helpu a chefnogi pobl ifanc 16 i 24 oed i gael gwaith a/neu hyfforddiant i ddatblygu sgiliau oes, roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig sefydlu hunaniaeth i'n Canolbwynt Ieuencid newydd, sy'n eistedd o fewn Canolbwynt Cyflogaeth Conwy.

Mae'r logo newydd wedi cael ei ddylunio gan Youth Friendly yng Nghonwy, sy'n arbenigo mewn defnyddio dylunio, ffilm a chyfryngau i gyfathrebu gyda phlant a phobl ifanc. Maent yn gryf o'r farn y dylai pob gwaith ymgysylltu, bod yn berthnasol a chyfathrebu er mwyn iddo fod yn effeithiol.

Rydym yn hynod falch eu bod wedi cyfleu'r egni, y dyhead a'r siwrnai gadarnhaol yr ydym yn eu cynnig i gyfranogwyr, ac mae hefyd wedi cael croeso cynnes gan eu Grŵp Ymgynghori Ieuencid (pobl ifanc yn eu harddegau hwyr sy'n byw yng Nghonwy) a oedd yn rhan o'r broses ddylunio.

Mae'r Warant i Bobl Ifanc yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ymrwymiad y Llywodraeth, a gaiff ei ariannu yn rhannol drwy raglen Cymunedau am Waith a Mwy.



**Canolbwynt Cyflogaeth
Conwy Employment Hub**



YR ARGYFWNG COSTAU BYW

Wrth i ni ymdrechu i ddal dau ben llinyn ynghyd, rydym yn dyblu ein hymdrechion i gynnig cyngor a chefnogaeth i drigolion Conwy.

Er nad oes gennym hudlath sy'n gallu cael gwared ar bryderon ariannol pawb, mae gennym adnoddau i helpu ac mae gan ein tîm o Fentoriaid a Chynghorwyr yr holl fanylion diweddaraf.

Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i'r rheiny sydd dros 60 oed, Cyngor am Fudd-daliadau, Cymorth i'r Anabl, Cymorth i Deuluoedd, Grantiau, banciau Bwyd a chymorth gyda biliau'r cartref yn ogystal â Chyngor a Datrysiaid i Ddyledion.

Rydym yn dal i gynnal ein sesiynau galw heibio rheolaidd o amgylch y sir ac rydym yn cydweithio'n agos â Chanolfannau Teuluoedd a Llyfrgelloedd i sicrhau ein bod yn cyrraedd y lleoedd y mae angen ein cymorth fwyaf yn y gymuned.

Fe wnaethom hefyd gynnal Sesiwn Wybodaeth am Fenthyca Ariannol yn Anghyfreithlon ar ddiwedd mis Tachwedd i atal pobl rhag cael eu hecsploetio. Cafodd y sesiwn ei rhedeg ar y cyd â'r Uned Benthycu Ariannol yn Anghyfreithlon sy'n rhan o'r gwasanaeth Safonau Masnach. Mae gan yr Uned bŵer i ymchwilio i fenthycwyr arian didrwydded, eu herlyn ac, yn bwysicach fyth, i helpu pobl i ddileu dyledion.



YDYCH CHI'N CAEL ANHAWSTER LLENWI SWYDDI?

Dros y blynyddoedd rydym wedi gweithio gyda nifer o fusnesau a sefydliadau ar hyd a lled Conwy i'w helpu i lenwi swyddi gwag, ac rydym bob amser yn ceisio meithrin perthnasoedd newydd gyda chyflogwyr lleol a helpu mwy fyth o bobl i ddod o hyd i waith cynaliadwy.

Yn wahanol i asiantaeth gyflogaeth, nid oes ffi i'w thalu pan fyddwch yn helpu i ddod o hyd i ymgeiswyr addas i swyddi. Mae ein tîm o fentoriaid a hyfforddwyr gwaith hynod fedrus yn wych am ddod i adnabod y cyfranogwyr, ac rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn cydweddu'r bobl gywir â'r swyddi cywir.

Mae sawl ffordd y gallwn eich helpu i hyrwyddo'ch swyddi gwag;

- Gallwn drefnu bod cynrychiolydd o'ch busnes yn ymuno ag un o'n cyfarfodydd wythnosol dros Teams, gan roi cyfle iddyn nhw siarad gyda'n mentoriaid am y swyddi yr ydych yn recriwtio ar eu cyfer.
- Rydym ar y radio dwywaith yr wythnos, ac eto gallwn drefnu bod cynrychiolydd yn ymuno â ni i siarad gyda'n gwrandawyr yn fyw.
- Gallwn hefyd drefnu sesiynau gwybodaeth ar-lein dros Teams, i roi cyfle i bobl ymuno ar-lein a dysgu am eich swyddi gwag a chanfod mwy am ddiwrnod gwaith arferol yn eich busnes / sefydliad.

Mae ein Swyddog Ymgysylltu â Chyflogwyr Cymunedau am Waith a Mwy, Clare Kingscott, yn angerddol am helpu pobl i ddod o hyd i waith y byddant yn ei fwynhau, ac mae'n credu bod hyn yn allweddol i gynaliadwyedd swyddi. "Pan ddaw rhywun atom yn chwilio am waith, mae'n bwysig canfod beth yw eu diddordebau, a pha fath o amgylchedd gwaith sy'n eu gweddu. Ambell waith byddwn yn awgrymu eu bod yn ehangu eu set sgiliau ac ymgymryd â hyfforddiant neu gymryd rhan mewn cwrs, ac yn ei dro mae hyn o fudd i gyflogwyr, yn enwedig pan allwn nodi unrhyw fylchau mewn sgiliau a fyddai o fudd i'r gweithle."

"Mae cael swydd yn golygu llawer mwy na thalu biliau. Rydym yn treulio llawer iawn o'n hamser yn y gwaith a dylai mynd i'r gwaith fod yn rhywbeth i'w fwynhau felly mae'n bwysig i ni fel tîm ein bod yn helpu pobl i ddod o hyd i swydd y maent yn edrych ymlaen at adael y tî i fynd iddi, ac mae'r un mor bwysig bod y cyflogwyr yr ydym yn gweithio â nhw yn hapus gyda'r ymgeiswyr yr ydym yn eu cynnig."

Felly beth am gysylltu â ni heddiw a chanfod sut y gallwn helpu i atgyfnerthu'r gweithlu?

Y NEWYDDION DIWEDDARAF...

Fel rhan o'n cefnogaeth barhaus i Radio Bayside, rydym yn hynod falch o gyhoeddi ein bod yn noddi bwletinau Newyddion yr orsaf.

Bydd y contract 12 mis a ddechreuodd ym mis Tachwedd yn sicrhau bod gwrandawyr yn clywed amdanom yn y gydnabyddiaeth nawdd cyn pob bwletin Newyddion trwy gydol y dydd.

Bydd y gydnabyddiaeth yn dilyn yr un fformat ond bydd y cynnwys creadigol yn amrywio, ac ar hyn o bryd mae gennym ddwy fersiwn a ddarlledir mewn cylchdro.



CROESO I'R TÎM!

Mae'r **Rees Brown** wedi ymuno â'r Canolbwynt fel mentor Cymunedau am Waith a Mwy. Mae Rees wedi gweithio ar draws sawl prosiect cyflogadwyedd ar hyd a lled Ynys Môn a Gwynedd gyda Chymunedau Ymlaen Ynys Môn, fel mentor, swyddog ymgysylltu â chyflogwyr a rheolwr tîm penodol i gefnogi cyflogwyr o bob maint i recriwtio a datblygu. Ar ôl symud i'r ardal yn ddiweddar, mae Rees yn edrych ymlaen at integreiddio ymhellach i'r gymuned, a chefnogi preswylwyr Conwy i gael gwaith. Y tu allan i'r gwaith, mae Rees yn chwarae pêl-droed i Glwb Pêl-droed Chwaraeon Mochdre, a gyda Mind Conwy, noddwyr eu crysau newydd, maent yn gobeithio codi ymwybyddiaeth o lechyd Meddwl yng Nghonwy.



Mae **Sarah Davies** wedi bod yn fentor i Gymunedau am Waith a Mwy ers mis Gorffennaf 2021, a gyda chyllid ychwanegol gan y Canolbwynt i gefnogi pobl ifanc 16-24 oed, mae Sarah bellach yn canolbwyntio ar wella ymgysylltiad a datblygu prosiectau gyda'r grŵp oedran hwn yn unig a bydd yn cydweithio â nhw i oresgyn unrhyw rwystrau sy'n eu hwynebu er mwyn eu cynorthwyo i gael gwaith neu hyfforddiant. Y tu allan i'r gwaith, mae Sarah yn rhedeg Shine, sef academi celfyddydau theatrig sy'n dysgu plant ysgol yng Nghorwen a Dinbych i ganu, actio a dawnsio gan orffen gyda dwy sioe hynod boblogaidd bob blwyddyn.

Mae **Lyndsay Edwards** wedi ymuno â thîm y Canolbwynt fel mentor Cymunedau am Waith i weithio gyda Sarah i gefnogi pobl ifanc 16-24 oed. Mae hi wedi bod yn hyfforddwr gwaith / cynghorydd cyflogaeth sy'n cefnogi trigolion Conwy i gael gwaith ers bron i 17 o flynyddoedd ac mae wedi cynnal clybiau swyddi lleol a sesiynau galw heibio i gynorthwyo pobl i ysgrifennu CVs, ceisiadau am swyddi ac unrhyw help arall yn ymwneud â swyddi sy'n ofynnol i alluogi'r gymuned i symud ymlaen â'u bywydau a gwneud gwahaniaeth. Y tu allan i'r gwaith mae Lyndsay yn mwynhau 'Crossfit', rhedeg llwybrau ar fynyddoedd a gwyllo rygbi. Mae hi hefyd yn helpu i redeg clwb rygbi plant lleol ar gyfer plant 4 i 18 oed sydd mor llwyddiannus a phoblogaidd nes bod dros 180 o chwaraewyr wedi cofrestru.



Cafodd **Emma Thomas** ei phenodi yn fentor Cymunedau am Waith a Mwy sy'n arbenigo mewn recriwtio i'r sector gofal cymdeithasol. Ymunodd â ni ym mis Mehefin ar ôl trosglwyddo o'i swydd fel Gweithiwr Teuluoedd gyda CBSC. Mae ganddi brofiad blaenorol fel Hwylusydd Cyflogaeth gyda Hyfforddiant Gogledd Cymru ac fel Cydlynnydd Atgyfeirio i'r elusen Adferiad Recovery. Mae'n falch o fod wedi sicrhau'r swydd unigryw hon ar y cyd rhwng y Canolbwynt a'r Tîm Datblygu'r Gweithlu, ac mae'n gobeithio codi proffil gwaith gofal cymdeithasol trwy dynnu sylw at y swyddi llawn boddhad sydd gan y sector i'w cynnig. Y tu allan i'r gwaith mae Emma yn 'fam bêl-droed' ac mae'n treulio'r rhan fwyaf o'i hamser sbâr yn cefnogi ei mab sy'n chwarae i'w gynghair leol.

Ymunodd **Sarah Jones** â'r tîm fel mentor Cymunedau am Waith a Mwy i gymryd lle Sarah Davies. Mae Sarah wedi bod yn gweithio ym maes recriwtio o'r blaen am 21 mlynedd, yn cefnogi pobl ledled gogledd Cymru a oedd yn chwilio am waith, ac yn eu rhoi mewn swyddi dros dro neu barhaol. Yr oedd Sarah yn rheoli tîm ym Mae Colwyn gyda gweithlu asiantaeth dros dro o hyd at 200 o aelodau staff. Mae bellach yn edrych ymlaen at gefnogi pobl i oresgyn eu rhwystrau i gyflogaeth a'u cynorthwyo i ganfod llwybr tuag at eu nod yn y pen draw.



Y GRONFA ADFYWIO CYMUNEDOL

Mae'r chwarter diwethaf wedi bod yn un prysur i'r Prosiectau a ariennir gan Gronfa Adfywio Cymunedol y DU.

- Gweithdy Coginio Cymunedol Cynhaliwyd pum gweithdy coginio cymunedol hwyliog gan ganolbwyntio ar greu prydau bwyd fforddiadwy, iach a blasus gan ddefnyddio cynhwysion sylfaenol o'r cwpwrdd storio a'r banc bwyd yng Nghanolfannau Teuluoedd Llanrwst, Bae Colwyn, Abergele, Llandudno a Chyffordd Llandudno.

- Cyfringau Cymdeithasol a Marchnata Cwrs 6 wythnos gyda Teresa Carnall o 'TBC Marketing' i addysgu perchnogion busnes newydd sut i ddefnyddio cyfringau cymdeithasol i farchnata eu busnesau.

- Cwrs Crest Cwrs deuddydd dros bedair wythnos gyda Crest a roddodd gipolwg i bobl ar y dewisiadau gyrfaoel amrywiol gan gynnwys manwerthu, gwaith gofal/cymorth a gwaith coed / saer gan ddarparu sgiliau a phrofiad gwaith.

- Diwrnodau Hwyl i'r Teulu Fe wnaethom ymuno â Chartrefi Conwy a Creu Menter i gynnig diwrnod allan hwyliog ac am ddim i deuluoedd o dai cymdeithasol i Barc Teulu Gelli Gyffwrdd.

- Gweithdy Crochenwaith Dau Weithdy Crochenwaith unigryw i aelodau o Wasanaeth Cam-drin Domestig Aberconwy.

- Diwrnod Fforio am Fwyd Ar y cyd â Chreu Menter, fe wnaethom gynnal diwrnod gweithgareddau awyr agored ar gyfer ei brosiect Teuluoedd yn Gweithio. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol a dysgodd y teuluoedd am y grefft fforio a sut i adnabod planhigion a ffrwythau sy'n tyfu'n wyllt ac sy'n darparu gwledd anhygoel a bwyd am ddim. I ddilyn cafwyd cinio mewn caffi a thaith dywysedig o amgylch Castell Conwy.



- Sgiliau Gweinyddu Busnes a Chyflogadwyedd Cwrs 11 wythnos gyda Grŵp Llandrillo Menai. Roedd hwn yn gwrs cyffredinol da i ddysgu sgiliau TG amhrisiadwy.

- Headway Ar y cyd â Headway, sef cymdeithas anafiadau ar yr ymennydd, fe wnaethom gynnig diwrnod allan i aelodau grŵp Conwy ar Reilffordd Eryri o Gaernarfon i Borthmadog. Roedd y daith yn rhan bwysig o Weithdai Celf Headway a oedd yn cael y cyfranogwyr i ddefnyddio crefftau i greu atgofion o'u diwrnod.



HYDER YN DY HUN

Mae Hyder yn dy Hun yn brosiect arall a ariennir gan y Gronfa Adfywio Cymunedol sy'n cael effaith fawr ar y cyfranogwyr trwy leihau arwahanrwydd cymdeithasol, meithrin gwytnwch a gwella hunan-hyder / hunan-barch trwy ystod o weithgareddau a gwaith mentora un-i-un. Allan o gohort o 41 o gyfranogwyr, mae pump wedi mynd ymlaen i swyddi llawn-amser, mae dau yn gwirfoddoli, mae un wedi mynd ymlaen i addysg llawn-amser, mae 3 wedi mynd ar Gylch Mentora'r GIG sy'n eu galluogi i gael profiad gwaith am chwe wythnos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac mae dros eu chwarter wedi cael cymwysterau cydnabyddedig a fydd yn eu helpu wrth chwilio am swydd.

Os ydych yn ymweld â Venue Cymru dros yr wythnosau nesaf, ewch i weld yr Arddangosfa Decstilau a Ysbrydolwyd gan Dirwedd gan Hyder yn dy Hun. Mae'r gwaith wedi cael ei ysbrydoli gan dirwedd Bae Colwyn, teulu a chyfeillion ac mae'n ganlyniad gweithdai Cyfunio / Fusion y mynychodd y cyfranogwyr dan arweiniad yr artist tecstilau adnabyddus, Cefyn Burgess.

SYMUD O UN LLE I'R LLALL!

Yn ein hymgyrch hysbysebu nesaf bydd y Canolbwynt yn teithio milltiroedd gan y byddwn yn cynnal ymgyrch pedair wythnos ar fysiau lleol.

Mae'r ymgyrch sy'n cychwyn ym mis Ionawr yn cynnwys 12 o hysbysebion ar gefn bysiau a 15 o baneli mewnol. Byddem wrth ein bodd yn cael clywed ble mae ein hysbysebion yn cael eu gweld felly os byddwch yn gweld un ac os yw'n ddiogel i chi wneud hynny, tynnwch lun a'i e-bostio atom i ceh@conwy.gov.uk neu rhannwch o ar Facebook a'n tagio ynddo.



Cysylltwch Canolbwynt Cyflogaeth Conwy ar 01492 575578, e-bost ceh@conwy.gov.uk neu ewch <https://www.conwy.gov.uk/conwyemploymenthub>

Mae Canolbwynt Cyflogaeth Conwy yn cynnal y Rhaglenni Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru canlynol: Cymunedau am Waith a PaCE sy'n cael eu cefnogi gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, a Chymunedau am Waith a Mwy sydd hefyd yn ariannu Gwarant i Bobl Ifanc. I gael rhagor o wybodaeth am y rhaglenni ewch i <https://bit.ly/CEHRhaglenni>

Daw'r newyddlen hon o restr bostio. Os dymunwch ddad-danysgrifio, **[cliciwch yma](#)** a theipiwch 'unsubscribe' yn y blwch 'Subject' a byddwn yn dileu eich manylion ar unwaith.



GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â CHYMUNEDAU AR GANOLFAN BYD GWAITH
WORKING IN PARTNERSHIP WITH COMMUNITIES AND JOB CENTRE PLUS

